OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3119 (Cy.289)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF

Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio Rhif 3) 2006

Wedi'u gwneud	- -	*21 Tachwedd 2006*
Yn dod i rym	- -	*22 Tachwedd 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 121(5) a 122(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio Rhif 3) 2006 a daw i rym ar 22 Tachwedd 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005

2. Yn yr Atodlen i Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005(**2**), hepgorer y geiriau "Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro" a "Cyngor Sir Penfro".

(**1**) 2004 p.5.
(**2**) O.S. 2005/2722 (Cy. 193) (C.110) a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/842 (Cy. 72) a 2006/1700 (Cy. 162).